



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Adroddiad interim
Rhagfyr 2024



Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Adroddiad interim 2024

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Dyfyniadau a Argymhellir:

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2024. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Adroddiad Interim (Drafft).

Cyfyngiadau: Dim

Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#).

Mae'r holl ddelweddau yn © Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar y dde cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Cefndir.....	2
3. Sut byddwn yn cyflwyno'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2025.....	6
4. Sut rydym yn asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.....	8
5. Heriau.....	13
6. Ymateb i'r heriau.....	18
7. Anghenion tystiolaeth.....	25
Llyfryddiaeth.....	30

1. Cyflwyniad

Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw ein hasesiad o'r graddau y mae Cymru'n rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth orau i asesu adnoddau naturiol Cymru a'r manteision a gawn ohonynt drwy ecosystemau Cymru – aer a dŵr glân, bywyd gwylt ffyniannus, mannau hamdden, ysbrydoliaeth, ynni, pren, a bwyd.

Rydym yn asesu'r prif heriau ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ac yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer camau gweithredu i wella cyflwr ein hadnoddau naturiol a'r buddion y maent yn eu darparu.

Wrth i ni baratoi ein trydydd asesiad, i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y prif heriau i adnoddau naturiol Cymru – colli natur, newid hinsawdd, a llygredd a gwastraff.

Yn yr adroddiad interim hwn, rydym yn nodi ein cynlluniau ar gyfer y trydydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac unrhyw ffynonellau tystiolaeth newydd mawr a fydd yn cael eu defnyddio. Rydym hefyd yn nodi ac yn blaenoriaethu unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, ynghyd â chynnydd o ran llenwi bylchau a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol.

Rydym hefyd yn nodi rhai o'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru a'u goblygiadau ar gyfer llesiant. Gobeithiwn y bydd hwn yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda defnyddwyr yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a rhanddeiliaid eraill er mwyn llunio'r adroddiad terfynol orau yn ystod 2025.

2. Cefndir

Pwrpas yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn darparu tystiolaeth sylfaenol unedig sy'n gyffredin i bob defnyddiwr.

Mae'r adroddiad yn helpu amrywiaeth o bobl a sefydliadau i wneud penderfyniadau.

Mae'n ein helpu ni, fel cymdeithas, i fod yn ymwybodol o'r buddion y mae ein hadnoddau naturiol yn eu darparu a deall sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd ac, felly, ar y buddion hyn.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn ein galluogi i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd i ni wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddyfodol Cymru a'n hól troed tramor.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn helpu i ddylanwadu ar bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae'r asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cyfrannu at olrhain cynnydd yn erbyn nodau llesiant Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi cael ei ddefnyddio gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i lywio eu cynlluniau llesiant. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Er enghraifft, mae ail gynllun llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg yn nodi "Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur" fel maes blaenoriaeth allweddol. Mae'r newidiadau angenrheidiol a ddisgrifir yn cynnwys ystyried trafndiaeth, ynni, bwyd, bioamrywiaeth, a sut y defnyddir adeiladau a'r tir (Ein Bro – Our Vale, 2023). Gwnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 a'i ganfyddiadau yn y dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ar yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth, sy'n rhan o'i asesiad llesiant (Ein Bro – Our Vale, 2022).

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i lywio penderfyniadau cynllunio lleol. Mae'n bwydo i mewn i'n datblygiad o [Ddatganiadau Ardal](#) i roi camau gweithredu lleol ledled Cymru ac yn darparu cyfle i gamau gweithredu lleol gael eu harddangos a dylanwadu ar eraill.

Gall eraill sy'n ceisio lleihau effaith Cymru ar adnoddau naturiol wrth sicrhau buddion llesiant i bobl Cymru ddefnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Fframwaith deddfwriaethol

Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw ein fframwaith deddfwriaethol. Mae'n ein galluogi i sicrhau bod adnoddau naturiol ac ecosystemau yn gydnerth ac yn gallu darparu buddion nawr, ac ar gyfer y dyfodol, drwy reolaeth gynaliadwy. Mae'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar arferion gorau rhyngwladol, sef y dull rheoli ar lefel yr ecosystem.


Mae'n ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992 o fewn cyfraith Cymru (*Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol*, 1992).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u llunio i adlewyrchu dull gweithredu'r Cenhedloedd Unedig. Maent yn cysylltu â dull gweithredu deddfwriaeth arall, megis y Deddfau Cynllunio a Threftadaeth.

Mae asesiadau llesiant yn nodi'r anghenion llesiant ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Ffigur 1):

- Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn olrhain cynnydd Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n sylfaen dystiolaeth hanfodol i gefnogi Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.
- Mae ein **Datganiadau Ardal** yn galluogi gwaith i weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol ledled Cymru. Mae Datganiadau Ardal yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer ardaloedd lleol penodol.



Ffigur 1: Fframwaith Cyflawni Addasol Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Gall Cymru roi'r newid trawsnewidiol y mae'r Cenhedloedd Unedig yn galw amdano ar waith drwy weithio o fewn y fframwaith hwn.

Hefyd yn cyfrannu at y newid hwn mae: Cymru'r Dyfodol: Y cynllun cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, 2021a), Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019) a'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2023a).

Yr hyn a ddywedasom yn ein hadroddiadau blaenorol

Roedd y ddau adroddiad blaenorol yn asesu sefyllfa adnoddau naturiol ac ecosystemau yng Nghymru, a chanfuwyd nad ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Canfuwyd hefyd nad yw ein defnydd o adnoddau naturiol byd-eang yn gynaliadwy nac yn gyfiawn.

Roedd y ddau adroddiad yn archwilio achosion (neu ysgogwyr) uniongyrchol o'r rheolaeth anghynaliadwy hon, megis llygredd a newid hinsawdd. Disgrifiwyd hefyd yr achosion anuniongyrchol – gweithgareddau dynol megis systemau economaidd, datblygiadau technolegol, ymddygiad dynol a llywodraethu.

Cyflwynodd yr [ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) (CNC, 2020) bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan eu defnyddio i strwythuro'r asesiad ac i nodi cyfleoedd ar gyfer camau gweithredu i wella rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gwnaethom dynnu sylw at yr angen am newid systemau drwy'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn defnyddio ynni, trafnidiaeth a bwyd.

Yn 2022-23, cynhaliodd CNC sgwrs genedlaethol gyda phobl Cymru ynghylch pa ddyfodol y maent ei eisiau ar gyfer byd natur (CNC, 2023a). Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng dewisiadau ffordd o fyw a'r effaith ar fyd natur yng Nghymru ac yn fyd-eang, a pha gamau y gallai unigolion eu cymryd. Daeth i ben gyda gweledigaeth a rennir, a ddatblygwyd trwy gynulliad dinasyddion, gan archwilio sut olwg allai fod ar 2050 pe bai natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd. Amlygodd y gwerthusiad yr angen am fwy o gydweithio a chyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'r targedau a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang (offer ac atebion ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio).

Bydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn adeiladu ar yr asesiadau blaenorol hyn, gan ddarparu tystiolaeth am yr hyn sydd wedi newid a'r hyn nad yw wedi newid. Bydd yr adroddiad yn nodi'r heriau blaenoriaeth a'r cyfleoedd allweddol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd.

Heriau cyfredol

Bedair blynedd ar ôl yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol diwethaf, mae heriau byd-eang colli natur, newid hinsawdd, llygredd a gwastraff wedi dwysáu. Mae gweithgareddau dynol yn parhau i niweidio gallu'r blaned i ddarparu'r cyfan sydd ei angen arnom ar gyfer ein lles. Mae Strategaeth Tymor Canolig UNEP (2022–2025) yn amlygu sut mae tri argyfwng rhyng-gysylltiedig – newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd – yn peryglu llesiant economaidd a chymdeithasol byd-eang, ac yn tanseilio cyfleoedd i leihau tlodi a gwella bywydau (UNEP, 2021).

Mae Rhagolwg Amgylchedd Byd-eang Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (GEO 6) (UNEP, 2019) yn amlygu bod “*iechyd dynol eisoes mewn sefyllfa enbyd*” ac y bydd y sefyllfa'n gwaethygu ymhellach os na chymerir camau brys i ddiogelu'r amgylchedd (UNEP, 2019).

Ailadroddwyd maint ac achos newid hinsawdd yn 2023 gan Banel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) (IPCC, 2023). Ac mae trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU

(Netherwood, 2021) wedi tynnu sylw at risgiau i Gymru y mae angen mwy o weithredu arnynt ar fyrder.

Ymateb i'r heriau

Mae modd wynebu'r heriau hyn a rhaid gwneud hyn.

Rhaid i ni, fel cymdeithas, wella'r cydbwysedd rhwng ecsbloetio ac amddiffyn. Yn 2021, daeth yr asiantaethau cadwraeth natur statudol ar draws y DU at ei gilydd i nodi ystod o fesurau i alluogi'r DU i ddod yn natur-bositif erbyn 2030. Daethant i'r casgliad, os gweithredwn yn awr, y gallwn gyflawni hyn. Mae'r ymatebion eang a nodir ganddynt yn ymwneud â phrif ffrydio adfer byd natur, targedau uchelgeisiol ar gyfer amddiffyn ac adfer, a defnydd cynaliadwy o dir a'r môr (Brotherton P. ac eraill, 2021).

Yn hollbwysig, rhaid inni hefyd wella cynaliadwyedd ein systemau economaidd ac ariannol. Mae Adolygiad Dasgupta yn amlygu "y gall amgylchedd iach ac economi fywiog fynd law yn llaw, ac yn wir mae'n rhaid gwneud hynny, neu fel arall ni fydd gennym y naill na'r llall" (Trysorlys EF, 2021). Mae'n galw am newidiadau yn y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu ac yn mesur llwyddiant economaidd i amddiffyn a gwella ein ffyniant a'r byd naturiol. Mae Dasgupta yn nodi ystod o newidiadau systemig i bontio i economïau sy'n cyfrannu at blaned iach. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu dulliau buddsoddi preifat i gefnogi adferiad byd natur, atebion ar sail natur, grymuso dinasyddion drwy roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwell, codi ymwybyddiaeth o natur a'r manteision y mae'n eu darparu, a llywodraethu cyfiawn, yn enwedig o ran mynediad teg i amgylchedd iach a phontio teg. Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd ar y rhain yng Nghymru, y byddwn yn tynnu sylw ato yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025.

3. Sut byddwn yn cyflwyno'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2025

Byddwn yn cyflwyno Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 fel cyfres o dudalennau gwe ac fel un ddogfen y gellir ei lawrlwytho. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr o'r adroddiad diwethaf, rydym am ei gwneud yn haws dilyn ymlaen o negeseuon allweddol i'r dystiolaeth sy'n sail i'r negeseuon hynny. Byddwn yn cyflwyno Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn 2025 ar dair lefel wahanol.

Lefel 1 – crynodeb

Byddwn yn canolbwyntio ar negeseuon a chasgliadau lefel uchel yn seiliedig ar ein hadolygiad a'n dadansoddiad. Byddwn yn defnyddio ffeithluniau ac offer gweledol i helpu i gyflwyno negeseuon allweddol.

Byddwn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Lefel 2 – yr asesiadau a thystiolaeth

Byddwn yn disgrifio'r dystiolaeth rydym wedi'i defnyddio i lywio'r casgliadau Lefel 1. Bydd y cysylltiad rhwng y casgliadau a'r dystiolaeth yn cael ei wneud yn glir.

Bydd y dystiolaeth hon yn cynnwys diweddariad i asesiad Cymru gyfan yn erbyn pob un o bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – gan ddiweddarau Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.

Bydd y dystiolaeth yn cael ei threfnu o amgylch yr wyth ecosystem (ymylon arfordirol; tir ffermio amgaeedig; dŵr croyw; yr ardal forol; mynyddoedd, rhos a rhostir; glaswelltir lled-naturiol; ardaloedd trefol; coetiroedd), tri adnodd naturiol (aer, pridd, dŵr), bioamrywiaeth, a thystiolaeth drawsbynciol bellach, gan gynnwys rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau, newid defnydd o dir a'r môr, newid hinsawdd, llygredd, ecsbloetio uniongyrchol, gwastraff, tirwedd ac ynni.

Bydd y dystiolaeth yn cael ei nodi gan ddefnyddio fframwaith DPSIR (ysgogwyr, pwysau, cyflwr, effaith, ymateb – *drivers, pressures, state, impact, response* yn Saesneg). Bydd pob rhan o DPSIR yn cynnwys asesiad o'r statws cyfredol, tueddiadau'r gorffennol a rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Bydd pob asesiad ecosystem ac adnoddau naturiol yn dod i ben mewn asesiad yn erbyn pob un o bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bydd yr asesiadau DPSIR a nodau hyn yn cael eu cefnogi gan asesiad bioamrywiaeth trawsbynciol. Bydd hwn yn cefnogi'r asesiadau ar lefel yr ecosystem drwy ystyried bioamrywiaeth ar lefel rhywogaethau a mathau o gynefinoedd cysylltiedig, gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd yn myfyrio ar dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys adroddiad Sefyllfa byd natur: Cymru (Burns, F, Mordue, S, al Fulaij, N, Boersch-Supan, PH, ac eraill, 2023), gan gydnabod bod dull integredig o reoli bioamrywiaeth yn hanfodol i'n gosod ni ar lwybr tuag at ddyfodol natur-bositif.


Byddwn yn cynnwys yr hyder sydd gennym yn yr asesiadau a disgrifiad o'r prosesau sicrhau ansawdd a ddefnyddiwn.

Rydym yn bwriadu defnyddio ffeithluniau rhyngweithiol ac offer gweledol i gyflwyno'r dystiolaeth mewn crynodeb clir ac sy'n galluogi defnyddwyr i archwilio manylion pellach yn y meysydd penodol y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt.

Lefel 3 – y data a ffynonellau tystiolaeth

Byddwn yn cyfeirio at ffynonellau data penodol, llenyddiaeth gynradd berthnasol, neu adroddiadau syntheseiddio tystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth genedlaethol y gellir ei defnyddio ar raddfa lai, fwy lleol lle bo ar gael.

Mae Ffigur 2 yn dangos sut mae tystiolaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn adeiladu ac yn dod at ei gilydd, yn ogystal â'r cynulleidfaeodd y mae'n ceisio eu hysbysu ar raddfa genedlaethol a lleol. Bydd hyn yn helpu i ddangos llwybr clir rhwng tystiolaeth a negeseuon allweddol.



Ffigur 2: 2 yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r cynulleidfaeodd allweddol

4. Sut rydym yn asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru

Dywed Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mai amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu. Rhaid inni wneud hyn mewn ffordd a all ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Yn y modd hwn, mae rheoli


adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni saith nod llesiant Cymru.

Mae amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'i rannu'n bedwar nod. Yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, rydym yn defnyddio'r pedwar nod i asesu'r ffordd y mae Cymru'n rheoli adnoddau naturiol ac i nodi cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

1. Adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella.
2. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig.
3. Mae gan Gymru leoedd iach ar gyfer pobl sydd wedi'u diogelu rhag peryglon amgylcheddol.
4. Cyfrannu at economi adfywiol, gan gyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy.

Mae'r nodau i gyd yn rhyng-gysylltiedig ac ni allwn reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy heb gyflawni'r holl nodau (Ffigur 3).




Ffigur 3: Nodau rhyng-gysylltiedig rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ddangos y cysylltiadau rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol / diwylliannol ac economaidd

Fframwaith DPSIR

Er mwyn asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru yn erbyn y pedwar nod hyn, mae angen inni allu mesur y pwysau ar adnoddau naturiol a sefyllfa adnoddau naturiol, gan gynnwys cydnerthedd ecosystemau. Mae angen inni hefyd ddeall y manteision, neu'r gwasanaethau, a gawn ganddynt. Ac mae angen inni fesur a deall yn well pa gamau (neu ymatebion) sy'n gweithio i helpu i wella sut rydym yn rheoli adnoddau naturiol.

Yn 2020, daethom â'r agweddau hyn ynghyd mewn rhestr adnoddau naturiol ar gyfer pob ecosystem. Byddwn yn adeiladu ar hyn ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025, gan ddod â data economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ynghyd mewn un fframwaith 'DPSIR'. Bwriadwn ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Mae'r mesurau a ddefnyddiwn i asesu cynnydd gyda nodau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u gosod o fewn fframwaith Ysgogwyr–Pwysau–Cyflwr–Effaith–Ymateb a ddangosir yn Ffigur 4.



Ffigur 4: Fframwaith DPSIR wedi'i addasu ar gyfer yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (yn seiliedig ar UNEP (2019, tud. 13))

Yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025, byddwn yn cynnal asesiad DPSIR ar gyfer pob un o'r wyth ecosystem eang ynghyd â'r tri phrif adnodd naturiol – aer, pridd a dŵr.

Byddwn yn defnyddio'r dull i wneud y canlynol:

- dogfennu'r ysgogwyr a'r pwysau ar adnoddau naturiol ac ecosystemau.
- asesu sefyllfa a thueddiadau presennol yr adnoddau naturiol a'r ecosystemau o dan y pwysau hyn. Mae hyn yn cynnwys asesiad o gydnerthed ecosystemau.
- asesu effaith cyflwr adnoddau naturiol ac ecosystemau ar lesiant, gan ddefnyddio asesiad ansoddol a meintiol o wasanaethau ecosystemau ledled Cymru.
- nodi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer gweithredu (ymatebion) i wneud y gwaith o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau yn fwy cynaliadwy.

Rydym yn bwriadu gwneud y dystiolaeth sy'n disgrifio'r effaith ar lesiant yn gyson ar draws yr ecosystemau eang ac adnoddau naturiol. Byddwn yn defnyddio terminoleg gwasanaethau ecosystemau System Cyfrifyddu Economaidd Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cyfrifyddu Ecosystemau (Cenhedloedd Unedig ac eraill, 2021), sy'n adeiladu ar derminoleg Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU a ddefnyddiwyd yn flaenorol (Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011), i ganiatáu cymariaethau ag asesiadau a data tebyg o bob rhan o'r DU.

Sut mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn defnyddio fframwaith DPSIR

Mae'r asesiadau DPSIR ar lefel ecosystemau ac adnoddau naturiol. Bydd tystiolaeth drawsbynciol genedlaethol am ysgogwyr newid a themâu eraill yn cael ei defnyddio yn yr asesiadau hyn.

Ysgogwyr newid a phwysau allweddol

- Ar gyfer pob un o'r ysgogwyr newid, beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am bwysau allweddol ar yr ecosystem neu'r adnodd naturiol?
- Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am dueddiadau'r gorffennol ar gyfer y pwysau allweddol hynny, dros y tymor hir a'r tymor byr (ers 2020), ar yr ecosystem neu'r adnodd naturiol?
- Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am y rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran y pwysau allweddol hynny ar yr ecosystem neu'r adnodd naturiol?

Cyflwr, gan gynnwys gwytnwch ecosystemau

Ar gyfer adnoddau naturiol (aer, pridd, dŵr):

- Metrigau i ddisgrifio cyflwr presennol (ansawdd a maint) ar raddfa Cymru.
- Tueddiadau'r gorffennol tymor hir a byr (ers 2020).
- Rhagolygon y dyfodol ar raddfa Cymru.

Ar gyfer yr wyth ecosystem eang (ymylon arfordirol, tir fferm amgaeedig, dŵr croyw, yr ardal forol, mynyddoedd, rhostir a gweundir, glaswelltir lled-naturiol, ardaloedd trefol, a choetiroedd):

Gwydnwch: Beth mae sefyllfa adnoddau naturiol a'u rheolaeth yn ei olygu i wydnwch yr ecosystem?

- Aseiad o gydnerthed ecosystemau – gan ddefnyddio'r priodoleddau o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd).
- Lle mae tystiolaeth ar gael, aseiad o dueddiadau hirdymor a thymor byr (ers 2020) pob un o'r priodoleddau.
- Lle mae tystiolaeth ar gael, aseiad o'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol ar gyfer pob un o'r priodoleddau.

Effaith ar lesiant: Beth mae sefyllfa adnoddau naturiol, gwytnwch ecosystemau a'u rheolaeth yn ei olygu i'r cyflenwad o fuddion i bobl yng Nghymru?

- Lle mae tystiolaeth ar gael, aseiad meintiol ac ansoddol o'r buddion a ddarperir gan yr ecosystemau ac adnoddau naturiol.
- Lle mae tystiolaeth ar gael, arwydd o'r hyn sydd wedi newid ers 2020 a beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol ar gyfer y buddion hynny.

Cyfleoedd i weithredu: Beth yw'r opsiynau ar gyfer rheolaeth fwy cynaliadwy?

- Diweddariad ar gyfleoedd i weithredu 2020.
- Nodi unrhyw gyfleoedd newydd.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn defnyddio tystiolaeth DPSIR i asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Bydd yr asesiad yn erbyn pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel ecosystemau, adnoddau naturiol a Chymru gyfan.

Defnyddio tystiolaeth o Ddatganiadau Ardal

Mae proses y [Datganiadau Ardal](#) yn casglu tystiolaeth newydd am yr heriau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae saith Datganiad Ardal sy'n ymdrin â Chymru a'n hamgylchedd morol.

Mae'r Datganiadau Ardal hyn yn cefnogi'r dull seiliedig ar le ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori ym Mholisi Adnoddau Naturiol Cymru. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar le ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn darparu tystiolaeth bwysig ar y perthnasoedd penodol rhwng pobl, cymunedau, ac adnoddau naturiol lleol ac ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys camau a gymerwyd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

5. Heriau

Mae dadansoddiad sefyllfa Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer ei Strategaeth Tymor Canolig (2022–2025) yn amlygu bod y byd yn wynebu tair her amgylcheddol fawr: bioamrywiaeth a cholli natur, newid hinsawdd, a llygredd a gwastraff (UNEP, 2021). Mae prif ysgogwyr yr heriau rhyng-gysylltiedig hyn i gyd yn gysylltiedig yn bennaf â gweithgarwch dynol a phatrymau bwyta a chynhyrchu anghynaliadwy. Fel y dangosir yn Ffigur 3, mae mynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd integredig yn hanfodol os ydym am wella iechyd yr amgylchedd, pobl a'r economi. Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu sylfaen ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru a chyflawni nodau llesiant Cymru, y cerrig milltir cysylltiedig a'u dangosyddion.

Colli natur

Asesiadau byd-eang

Mae pwysau amgylcheddol yn gyrru dirywiad byd-eang mewn bioamrywiaeth ar gyfraddau na welwyd o'r blaen yn hanes dyn. Mae rhywogaethau'n diflannu ar gyfradd gyflymach.

Yn 2019, cyhoeddodd y Platfform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau (IPBES) asesiad byd-eang o fioamrywiaeth. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 1 miliwn o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion ledled y byd dan fygythiad o ddiflannu bellach. Gallai llawer ohonynt fod wedi diflannu o fewn degawdau. Yn fyd-eang, mae niferoedd cyfartalog rhywogaethau brodorol yn y rhan fwyaf o gynefinoedd tir mawr wedi gostwng o leiaf 20%, yn bennaf ers 1900 (IPBES, 2019a).

Mae gan fyd natur ran hanfodol i'w chwarae o ran darparu bwyd, ynni, meddyginiaethau ac adnoddau genetig. Os na wneir newidiadau nawr, bydd yr effaith negyddol ar fioamrywiaeth, swyddogaethau ecosystemau a llawer o gyfraniadau buddiol byd natur i bobl yn parhau tan 2050 a thu hwnt.

Mae ail asesiad byd-eang yn y camau cynllunio ar hyn o bryd, i'w ystyried gan gyfarfod llawn IPBES yn 2028.

Asesiadau Cymru

Mae [adroddiad Sefyllfa Byd Natur](#) 2023 yn cadarnhau bod bywyd gwyllt y DU yn parhau i ddirywio. I Gymru, “*ers dechrau monitro 380 o rywogaethau Cymreig ym 1994, mae niferoedd y rhywogaethau hynny wedi gostwng ar gyfartaledd 20%*” (Burns, F, ac eraill, 2023).

Mae adroddiad Sefyllfa byd natur: Cymru yn defnyddio tystiolaeth o'r hanner can mlynedd diwethaf ac yn dangos “*ar dir ac mewn dŵr croyw, mai newidiadau sylweddol a pharhaus yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein tir ar gyfer amaethyddiaeth, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, sy'n cael yr effeithiau mwyaf ar ein bywyd gwyllt*”.

“*Ar y môr, ac o amgylch ein harfordiroedd, y prif bwysau ar fyd natur yw llygredd, newid hinsawdd, gor-ecsbloetio (pysgodfeydd hanesyddol), rhywogaethau goresgynnol a datblygiad morol.*”

Yn gyffredinol, cyflawnodd 40% o gyrff dŵr wyneb a dŵr daear Cymru statws cyffredinol da neu well yn 2021. Mae hyn yn dal yn isel ond mae'n cynrychioli gwelliant o 3% ers 2015 a gwelliant o 8% ers 2009 (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 45 (Llywodraeth Cymru, 2022a)) (CNC, 2021a).

Mae'r dirywiad mewn bywyd gwyllt a chyflwr yr amgylchedd nid yn unig yn bryder byd natur. Fel y mae IPBES (2019b) yn nodi, mae hyn hefyd yn effeithio ar gyfraniadau natur i bobl a'u llesiant.

Fodd bynnag, mae rhai straeon llwyddiant sy'n dangos y gallwn wneud gwahaniaeth os gweithredwn. Mae adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 (Burns, F, ac eraill, 2023) yn amlygu bod ystlumod yng Nghymru yn dangos cynnydd cyfartalog o 76% ers 1998, diolch i warchodaeth gynyddol y lleoedd y maent yn byw ynddynt.

Newid hinsawdd

Asesiadau byd-eang

Yn 2018, rhybuddiodd y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) fod yn rhaid i'r byd gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net byd-eang erbyn 2050 er mwyn osgoi canlyniadau cynhesu uwchlaw 1.5 gradd C (IPCC, 2018).

Dywedodd fod cyfyngu cynhesu i 1.5 gradd C yn dal yn bosibl ac, o'i gyflawni, byddai'n lleihau risgiau i fioamrywiaeth, ecosystemau, systemau bwyd, dŵr a lles dynol.

Yn 2023, dywedodd yr IPCC, *"Mae gweithgareddau dynol, yn bennaf trwy allyriadau nwyon tŷ gwydr, wedi achosi cynhesu byd-eang yn ddiamwys, gyda thymheredd arwyneb byd-eang yn cyrraedd 1.1°C uwchlaw 1850-1900 yn 2011-2020. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang wedi parhau i gynyddu, gyda chyfraniadau hanesyddol a pharhaus anghyfartal yn deillio o ddulliau anghynaliadwy o ddefnyddio ynni a defnyddio tir a newid defnydd tir, a ffyrdd o fyw a phatrymau defnyddio a chynhyrchu ar draws rhanbarthau, rhwng ac o fewn gwledydd, ac ymhlith unigolion (hyder uchel)"* (IPCC, 2023, tud. 4).

Mae dadansoddiad y Cenhedloedd Unedig yn 2024 yn rhybuddio bod yn rhaid inni gyflawni gostyngiad o 43% mewn nwyon tŷ gwydr byd-eang o gymharu â 2019 erbyn diwedd y degawd hwn. Er gwaethaf yr angen i leihau allyriadau yn sylweddol, bydd cynlluniau gweithredu cenedlaethol ond yn sicrhau gostyngiad o 2.6% mewn allyriadau byd-eang erbyn 2030 (Ysgrifenyddiaeth UNFCCC, 2024).

Bellach mae angen brys am ymateb byd-eang ar draws llywodraethau, busnes a chymdeithas i liniaru risgiau i natur, systemau bwyd, dŵr a llesiant dynol. Mae newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhywogaethau i symud lleoliad deirgwaith yn gyflymach nag a ragwelwyd (Chen ac eraill, 2011). Bydd gwasanaethau ecosystemau y mae'r cynefinoedd hyn yn eu darparu i ni – fel amddiffynfeydd rhag llifogydd a chael gwared ar garbon deuocsid – hefyd yn cael eu colli.

Asesiad Cymru

Mae Cymru wedi cymryd camau breision i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gydag allyriadau amcangyfrifedig yn lleihau o 56 miliwn o dunelli o CO₂ a'i gyfatebol (MtCO₂e) ym 1990 i 36 MtCO₂e yn 2022 (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 41 (Llywodraeth Cymru, 2022a)). Fodd bynnag, o ystyried trywydd byd-eang allyriadau nwyon tŷ gwydr cynyddol, mae angen i Gymru addasu o hyd i'r risgiau y mae'n eu hwynebu yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU wedi amlygu risgiau cysylltiedig yng Nghymru o ran yr amgylchedd naturiol, llifogydd, seilwaith, iechyd pobl a threftadaeth ddiwylliannol. Mae angen gweithredu cynyddol a brys ar gyfer y rhain (Netherwood, 2021).

Llygredd a gwastraff

Asesiadau byd-eang

Mae llygredd ein haer a'n hatmosffer, ein dyfroedd a'n priddoedd yn peri risgiau sylweddol i iechyd dynol a natur. Mae Rhagolwg Amgylchedd Byd-eang Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (GEO 6) yn amlygu bod iechyd dynol mewn sefyllfa enbyd os na chymerir camau brys i warchod yr amgylchedd. Mae Targed 7 o Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) Kunming-Montreal yn nodi'n benodol ymrwymiad rhwymol yng Nghymru i leihau llygredd i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth erbyn 2030 (CBD, 2022).

Asesiad Cymru

Mae llygredd aer yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd ac ecosystemau. O'r 44 o ardaloedd rheoli ansawdd aer yng Nghymru, mae un ardal rheoli ansawdd aer wedi'i dynodi oherwydd y risg y bydd lefelau deunydd gronynnol PM₁₀ yn uwch na'r amcan ansawdd aer cymedrig dyddiol 24 awr ar gyfer PM₁₀. Mae'r 43 ardal rheoli ansawdd aer arall wedi'u dynodi lle mae lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) yn uwch neu mewn perygl o fod yn uwch na'r amcanion ansawdd aer ar gyfer NO₂ (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae crynodiadau cyfartalog llygredd NO₂ yn yr aer wedi gostwng o 14 ug/m³ yn 2007 i 8 ug/m³ yn 2022 (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 4 (Llywodraeth Cymru, 2022a)). Yn 2020, roedd 70.1% o arwynebedd cynefinoedd sensitif i asid yng Nghymru a 99.1% o arwynebedd cynefinoedd sy'n sensitif i faethynnau nitrogen yn uwch na'r llwythi critigol ar gyfer asideiddio ac ewtroffeiddio (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, 2023).

Nodir llygredd fel mater rheoli dŵr sylweddol ym masn afonydd Gorllewin Cymru a basn afon Dyfrdwy, yn enwedig llygredd o ddŵr gwastraff, trefi a dinasoedd, trafndiaeth, ardaloedd gwledig a mwyngloddiau segur (CNC, 2022a, 2022b). Ceir darlun tebyg ym masn afon Hafren (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2022). Drwy

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025, byddwn yn datblygu sylfaen dystiolaeth fwy unedig i ddeall yn well oblygiadau llygredd o ran rheoli adnoddau dŵr Cymru yn gynaliadwy.

Amlygodd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 y gall tir y mae halogiad yn effeithio arno achosi risg i iechyd pobl a'r amgylchedd ehangach. Yng Nghymru, yr halogion mwyaf cyffredin yw benso(a)pyren, plwm ac arsenig, a nodwyd pob un ohonynt mewn dros 60% o safleoedd tir halogedig (CNC, 2021b). Mae Cymru'n defnyddio llawer o adnoddau ar gyfer gweithgareddau mewn busnes a diwydiant, ffermio a chynhyrchu bwyd, y cartref a'r swyddfa, ac mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol. Fel yr amlygwyd hefyd yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020, pan fydd gwastraff yn cael ei gynhyrchu, gall fod yn niweidiol i ecosystemau, byd natur a llesiant y boblogaeth, yn enwedig lle nad yw'n cael ei reoli'n briodol mewn safleoedd gwastraff awdurdodedig neu'n cael ei reoli drwy weithgareddau anghyfreithlon (CNC, 2021c).

Amcangyfrifon diweddar o wastraff cartref heb ei ailgylchu fesul pen y flwyddyn oedd 172 kg yn 2022-23, gan ddatgelu bod hyn yn parhau i fod yn her sylweddol (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 15 (Llywodraeth Cymru, 2022a)). Er bod llawer i'w wneud o hyd i oresgyn pwysau gwastraff o bob ffynhonnell, mae cynnydd yn cael ei wneud. Er enghraifft, swm y gwastraff cartref na chafodd ei ailgylchu oedd 217 kg yn 2012-13 (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 15 (Llywodraeth Cymru, 2022a)).

Yr economi

Er bod datblygu economaidd wedi creu manteision enfawr i gymdeithas, mae hefyd wedi rhoi pwysau sylweddol ar fyd natur, wedi'i yrru gan ein hangen i ddefnyddio adnoddau naturiol, trosi tir at wahanol ddefnyddiau, a defnyddio'r amgylchedd fel dalffa ar gyfer ein gwastraff a'n llygredd. Mae Adolygiad Dasgupta (Trysorlys EF, 2021) gan Drysorlys EF yn nodi, "Gall amgylchedd iach ac economi fywiog fynd law yn llaw, ac yn wir mae'n rhaid gwneud hynny, neu fel arall ni fydd gennym y naill na'r llall." Nododd Adroddiad Risgiau Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd (2024) dywydd eithafol, newidiadau i systemau'r Ddaear, colli natur / cwmp ecosystemau a phrinder adnoddau naturiol fel y pedair risg uchaf i'r economi dros y deng mlynedd nesaf. Pennir llygredd fel y degfed risg uchaf.

Asesiad Cymru

Yn 2018, yr ôl troed amgylcheddol byd-eang o nwyddau a ddefnyddir yn flynyddol yng Nghymru oedd 12.3 miliwn hectar byd-eang (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 14 (Llywodraeth Cymru, 2022a)). Mae hyn yn llai na'r 17.0 miliwn hectar byd-eang a adroddwyd yn 2004.

Yr ôl troed amgylcheddol byd-eang yw'r darn o dir sydd ei angen i ddarparu'r adnoddau naturiol sydd eu hangen i gynhyrchu'r nwyddau hyn ac i gymhathu'r gwastraff o'u cynhyrchu a'u defnyddio. Er gwaethaf gostyngiad yn yr ôl troed dros yr 20 mlynedd diwethaf, nid yw'r gofynion economaidd hyn yn gynaliadwy. Pe bai holl boblogaeth y byd yn byw fel Cymru, byddai angen 2.08 Daear ar ddynoliaeth (Llywodraeth Cymru, 2024a).

6. Ymateb i'r heriau

Gellir datrys yr heriau hyn. Mae'r ymatebion y mae angen i ni eu gwneud o ran yr heriau natur, newid hinsawdd a llygredd sy'n ein hwynebu yn hysbys yn fras (gweler isod). Fodd bynnag, mae'r heriau hyn hefyd yn cydblethu. O'r herwydd, galwodd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 am gamau integredig i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan gynnig seilwaith gwyrdd a thrawsnewid i economi gylchol fel dwy ffordd strategol o ymateb i'r heriau hyn. Mae Polisi Adnoddau Naturiol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017) yn nodi ymatebion cysylltiedig ynghylch darparu atebion ar sail natur a chynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau, ochr yn ochr â defnyddio dull seiliedig ar le, fel y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ers 2020, mae pwysigrwydd ymatebion integredig i iechyd yr amgylchedd ac iechyd dynol, gan wreiddio gwerth natur wrth wneud penderfyniadau a thrawsnewid i economïau natur-bositif sy'n ariannu adferiad byd natur, wedi'i gydnabod. Bydd darparu'r mathau hyn o ymatebion yn chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu (Brotherton P. ac eraill, 2021).

Colli natur

Ymrwymodd y DU a Chymru i fod yn natur-bositif erbyn 2030 drwy Addewid yr Arweinwyr dros Natur (2020), ac i gymryd camau brys i atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth erbyn 2030 drwy'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Yn 2021, daeth yr asiantaethau cadwraeth natur statudol ar draws y DU at ei gilydd a gosod pwyntiau allweddol i fod yn natur-bositif erbyn 2030. Daethant i'r casgliad, os gweithredwn yn awr, y gallwn gyflawni hyn. Mae'r ymatebion eang y maent yn eu nodi sydd eu hangen yn ymwneud â phrif ffrydio adferiad byd natur, targedau uchelgeisiol ar gyfer amddiffyn ac adfer, a defnydd cynaliadwy o dir a môr ((Brotherton P. ac eraill, 2021).

Roedd y newidiadau allweddol a nodir ganddynt (Brotherton P. ac eraill, 2021) fel rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu ac adfer natur yn cynnwys: gwell rheolaeth ar ardaloedd gwarchoddedig, cadwraeth cynefinoedd y tu allan i ardaloedd gwarchoddedig, ac adfer cynefinoedd i greu a chryfhau rhwydweithiau natur.

Drwy ei Harchwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, mae Cymru hefyd yn nodi amrywiaeth o

argymhellion i gyflawni Addewid yr Arweinwyr dros Natur ac ymrwymiad Targed 3 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i ddiogelu 30% o arwynebedd tir a môr ar gyfer natur erbyn 2030 (cyfeirir ato fel 30 erbyn 30) (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae grwpiau arbenigol wedi canolbwyntio ar sefydlu fframweithiau monitro a thystiolaeth cadarn ar gyfer 30 erbyn 30; argymell prosesau a meini prawf ar gyfer cydnabod, monitro ac adrodd ar fesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal (OECMs); a datgloi potensial tirweddau dynodedig i gyflawni mwy ar gyfer byd natur a 30 erbyn 30.

Bydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn cefnogi ymagwedd Cymru at adfer natur, yn cyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, ac yn hysbysu defnyddwyr statudol megis y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

Newid hinsawdd

Ffordd hanfodol o liniaru effeithiau pellach newid hinsawdd yw lleihau ac osgoi rhyddhau allyriadau carbon i'r atmosffer (Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2022). Yn 2019, ymrwymodd y DU i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050, gyda Chymru yn ymrwymo i'r un targed yn 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021b). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gymysgedd o leihau allyriadau a gwrthbwysu, er enghraifft trwy atebion ar sail natur megis plannu coed (Burnett ac eraill, 2024).

Yn 2021, gosododd Cymru ei thargedau ar gyfer y llwybr i gyflawni sero net erbyn 2050, gan gynnwys sicrhau gostyngiad o 63% erbyn 2030 a gostyngiad o 89% erbyn 2040 (Llywodraeth Cymru, 2021c). Cyn hyn, gosodir targedau cyllideb garbon pum mlynedd, yn nodi gostyngiadau carbon rhwng 2016 a 2030.

Cyflawnodd Cymru'r gyllideb garbon gyntaf (2016-2020) gyda gostyngiad o 28% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o gymharu â lefelau 1990 (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023a). Mae'r ail gyllideb garbon bresennol (2021-2025) yn ymrwymo i ostyngiad o 37% mewn allyriadau (Llywodraeth Cymru, 2021d).

Mae sector cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo'n fwy uchelgeisiol i gyrraedd sero net erbyn 2030, drwy amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys defnydd tir a chaffael (Llywodraeth Cymru, 2021e). Mae ymgyrch Addewid Cymru wedi arwain at 139 o addewidion i leihau allyriadau carbon gan fusnesau, cymunedau ac ysgolion, ynghyd â'r sector cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2022c).

Er gwaethaf y cynnydd tuag at sero net, mae angen i Gymru addasu i'r risgiau y mae'n eu hwynebu yn sgil newid yn yr hinsawdd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* yn 2019. Mae'n cynnwys wyth maes gweithredu i adeiladu gwytnwch i risgiau hinsawdd, gydag adroddiad cynnydd a ryddhawyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn 2023 (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023b). Mae hyn yn cynnwys addasu byd natur a'r economi wledig a gwarchod

moroedd ac arfordiroedd. Nododd yr adroddiad gynnydd o ran cynllunio ar gyfer tua thraean o'r canlyniadau cydnerthedd hinsawdd cysylltiedig. Fodd bynnag, o'r 61 o risgiau a chyfleoedd ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, mae angen gweithredu ar frys o hyd ar gyfer tua hanner y rhain. Mae'r diffyg data sydd ar gael ar gyfer mwy na 50% o'r canlyniadau addasu yn atal asesiad trylwyr o gynnydd (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023b). Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, sef Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru, fel yr ail Gynllun Addasu Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2024b). Mae hyn yn dilyn ymlaen o Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd a'i nod yw mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar systemau ar gyfer cydnerthedd hinsawdd, gan gyflwyno 15 o gynlluniau addasu traws-sector.

Targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru

Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol inni leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gros o leiaf 80% erbyn 2050. Yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad y dylai Cymru sicrhau gostyngiad o 95% mewn allyriadau erbyn 2050 (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020) a chyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2021f).

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw lleihau allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil creu ynni o danwydd ffosil. Mae wedi gosod targedau i gynhyrchu digon o drydan o ffynonellau adnewyddadwy i ddiwallu 70% o anghenion trydan Cymru erbyn 2030. Yn 2021, roedd 55% o'r ynni a gynhyrchwyd o ffynonellau adnewyddadwy (Llywodraeth Cymru, 2023b). Cynyddodd hyn i 59% yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2023c). Yn 2022, amcangyfrifwyd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol o Gymru yn cyfateb i 35.7 miliwn tonnell o garbon deuocsid (CO₂) a'i gyfatebol, sef gostyngiad o 36% o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen (1990 ar gyfer carbon deuocsid, methan ac ocsid nitrus; 1995 ar gyfer nwyon wedi'u fflworeiddio) (BEIS, 2024; Llywodraeth Cymru, 2024c).

Llygredd a gwastraff

Ledled y DU, mae nifer o gamau gweithredu parhaus wedi'u nodi gan wledydd datganoledig i leihau amrywiaeth o ffynonellau llygredd sy'n effeithio ar bobl a natur. Mae mynd i'r afael â dyddodi amonia a nitrogen atmosfferig, llygredd dŵr gwasgaredig, a phlastigau morol wedi'i nodi fel un o'r newidiadau allweddol sydd ei angen i fod yn natur-bositif ((Brotherton P. ac eraill, 2021).

Mewn ymateb i bryderon ynghylch ansawdd aer a llygredd sŵn, daeth Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 i rym ar 14 Chwefror 2024. Mae Deddf 2024 yn ceisio gwella ansawdd ein hamgylchedd aer a lleihau effeithiau

llygredd ar iechyd dynol, natur a'r economi. Mae'n creu fframwaith ar gyfer gosod safonau gwell ar gyfer ansawdd aer a gofyniad am strategaeth genedlaethol ar seinweddau. Mae pwysigrwydd seinweddau naturiol wrth gynnal cysylltiad pobl â byd natur yn neges allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r cynllun drafft (Llywodraeth Cymru, 2023d).

Un o'r ffyrdd y mae Cymru'n mynd i'r afael â'r her wastraff yw drwy'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu. Mae'r strategaeth yn gosod targedau i leihau gwastraff 26%, anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, lleihau gwastraff bwyd 50%, a chynyddu ailgylchu i 70% erbyn 2025. Erbyn 2030, y targed yw lleihau gwastraff 33% a gwastraff bwyd 60% (Llywodraeth Cymru, 2021).

Camau gweithredu integredig

Ni ellir mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â cholli byd natur, newid hinsawdd, llygredd a gwastraff ar wahân. Mae angen ymateb integredig arnynt sydd â'r gallu i symud systemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn cyfeiriad mwy cynaliadwy. Yn unol â hynny, rhaid i bob rhan o gymdeithas gydweithio i oresgyn yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r heriau hyn gael eu hymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws y llywodraeth, busnesau a chymdeithas er mwyn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen. I gefnogi hyn, mae angen dangosyddion sy'n mynd y tu hwnt i ddim ond mesur cyflwr adnoddau naturiol, ac sy'n datgelu eu cyfraniad at ystod o amcanion llesiant. Cyfeirir yn aml at y broses o ymgorffori'r materion trawsbynciol hyn fel 'prif ffrydio' (Smith, 2021).

Mae targedau 14 i 23 o Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn nodi targedau ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau. Ymrwymodd y DU hefyd i brif ffrydio bioamrywiaeth i bolisiau sectoraidd a thraws-sector perthnasol ar bob lefel trwy Ymrwymiad 7 o Addewid yr Arweinwyr dros Natur. Mae prif ffrydio natur a bioamrywiaeth yn cael ei adlewyrchu'n dda yn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae gwreiddio ymateb i newid hinsawdd a cholli natur ym mhopeth a wna'r llywodraeth yn un o ddeg amcan llesiant y mae'r llywodraeth wedi asesu cynnydd yn eu herbyn yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024d). Mae Asesiad o Risgiau Hinsawdd Cymru hefyd yn amlygu y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori addasu yn ei chynlluniau ar gyfer sero net, llesiant yn y dyfodol a chynyddu bioamrywiaeth (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023b).

Cynllun ar gyfer planed iach a phobl iach

Mae'r sector iechyd yn faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu integredig ar golli byd natur, newid hinsawdd a llygredd. Gan gydnabod y berthynas rhwng yr amgylchedd

ac iechyd, mae Ymrwymiad 8 Adduned yr Arweinwyr dros Natur hefyd yn galw ar wledydd i “integreiddio dull gweithredu ‘lechyd Cyfunol’ ym mhob polisi a phroses gwneud penderfyniadau berthnasol ar bob lefel sy’n mynd i’r afael ag iechyd a chynaliadwyedd amgylcheddol mewn modd integredig”. Mae mabwysiadu’r dull ‘lechyd Cyfunol’ hwn wrth wneud penderfyniadau yn atgyfnerthu’r cysylltiadau rhwng iechyd ein planed a llesiant dynol.

Mae Brotherton P., ac eraill (2021) yn nodi’r cyfleoedd allweddol canlynol i wreiddio dull lechyd Cyfunol yn y DU:

- Integreiddio seilwaith gwyrdd a glas i ddatblygiadau ar y tir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio atebion ar sail natur yn ddiodyn a defnyddio safonau mannau gwyrdd i wella mynediad i fyd natur.
- Integreiddio canlyniadau ar gyfer natur i ddatblygiadau ar y tir ac ar y môr, gan sicrhau bod mynediad at natur yn cael ei wella, a darparu ystod eang o fanteision iechyd a manteision eraill.
- Sicrhau enillion amgylcheddol ochr yn ochr â datblygiadau adeiledig drwy’r system gynllunio.
- Galluogi cyswllt â natur, fel ei fod yn dod yn rhan o brofiad beunyddiol pawb. Mae presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru yn un ffordd o annog hyn (lechyd Cyhoeddus Cymru, dim dyddiad).

Ymgorffori gwerth natur wrth wneud penderfyniadau

Mae ystyried gwerth natur yn allweddol i brif ffrydio natur yn llwyddiannus wrth wneud penderfyniadau (Brotherton P., ac eraill, 2021). Adlewyrchir hyn yn Nharged 14 o Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD, 2022). Rhyddhaodd y Platfform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau (IPBES) ei asesiad gwerthoedd yn 2022 (Pascual ac eraill, 2023), sydd â’r nod o ddylanwadu ar benderfyniadau gwell ar gyfer rheoli natur.

Mae asesiad gwerthoedd IPBES yn amlygu bod penderfyniadau datblygu, yn nodweddiadol, wedi blaenoriaethu gwerthoedd natur sy’n seiliedig ar y farchnad (e.e. cyfraniad natur i’r sectorau amaethyddol, coedwigaeth ac echdynnol). Effaith hyn yw ystyriaeth wael o sut mae newidiadau mewn natur yn effeithio ar ansawdd bywyd pobl a’r buddion ehangach o fyd natur nad ydynt yn cael eu masnachu mewn marchnadoedd (e.e. hamdden, rheoleiddio hinsawdd a llygredd, a hunaniaeth ddiwylliannol). Yn 2023, cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol set gyntaf o gyfrifon cyfalaf naturiol ar gyfer Cymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023). Mae’r rhain yn darparu amcangyfrifon ar lefel genedlaethol o werth y buddion lluosog hyn,

a all gefnogi gwell penderfyniadau mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae'r mathau hyn o fanteision marchnad ac an-farchnad o natur yn cael eu nodweddu fel gwerthoedd 'cyfryngol' gan IPBES (2022), sy'n adlewyrchu golwg ar natur fel ased sy'n cyfrannu at lesiant. Argymhelliad allweddol arall gan IPBES (2022) oedd yr angen i gydnabod yn well y gwerth y mae pobl yn ei roi ar eu cysylltiadau â byd natur. Mae IPBES yn nodweddu'r rhain fel 'gwerthoedd perthynol'. Mae ystyried gwerthoedd perthynol lleol, yn ogystal â chyfryngol, yn hanfodol er mwyn osgoi peryglu gweithgareddau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd ar waith. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar le, wedi'i ymgorffori ym Mholisi Adnoddau Naturiol Cymru. Gall cyflwyno tystiolaeth ar werthoedd perthynol, ochr yn ochr â'r gwerthoedd cyfryngol a chynhenid (e.e. bodolaeth), helpu i alinio nodau polisi ac ymyriadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy seiliedig ar le. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal CNC.

Mae busnesau hefyd yn edrych fwyfwy ar integreiddio ystyriaethau sy'n ymwneud â natur ag amcanion eraill. Mae'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur (TNFD) yn cefnogi busnesau a chyllid i integreiddio byd natur yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n nodi canllawiau i fusnesau a chyllid ar gyfer adrodd a gweithredu ar eu dibyniaethau, effeithiau, risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â natur. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd 21 o sefydliadau sydd â'u pencadlys yn y DU wedi mabwysiadu'r TNFD ar gyfer 2025 (Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur, 2024). Mae hyn yn arwydd o gynnydd tuag at Darged 15 y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, sy'n galw ar fusnesau i asesu, datgelu a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth ac effeithiau negyddol (Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, 2022).

Economi adfywiol i ariannu adferiad byd natur

Fel yr amlygwyd gan Dasgupta (Trysorlys EF, 2021), mae'r trawsnewid economaidd sydd ei angen arnom yn galw am newidiadau yn y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu ac yn mesur llwyddiant economaidd i amddiffyn a gwella ein ffyniant a'r byd naturiol. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r DU a chenhedloedd G7 eraill wedi ymrwymo i'r newid i economïau natur-bositif drwy Gynghrair G7 ar Economïau Natur-Bositif (2023).

Mae Dasgupta (2021) hefyd yn nodi ystod o newidiadau systemig i bontio i economïau natur-bositif sy'n cyfrannu at blaned iach. Mae'r rhain yn cynnwys atebion ar sail natur, cyllid gwyrdd, grymuso dinasyddion, addysg, a llywodraethu teg, yn enwedig o ran mynediad i amgylchedd iach a phontio teg.

Atebion ar sail natur

Mae atebion ar sail natur yn ymyriad â blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio'r rhain fel camau gweithredu i amddiffyn, cadw, adfer, a defnyddio a rheoli'n gynaliadwy ecosystemau daearol, dŵr croyw, arfordirol a morol naturiol neu wedi'u haddasu sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn effeithiol ac yn addasol (UNEA, 2022). Mae Brotherton ac eraill (2021) yn nodi'r potensial i atebion ar sail natur alinio camau gweithredu ar gyfer natur a newid hinsawdd a bod mabwysiadu atebion ar sail natur yn ddiodyn dros 'seilwaith llwyd' yn un o'r newidiadau allweddol sydd eu hangen i fod yn natur-bositif erbyn 2030. Maent yn disgrifio nifer o raglenni sydd ar y gweill ledled y DU i ddarparu atebion ar sail natur ar gyfer lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys adfer mawndiroedd, coedwigo a mwy o blannu coed. Yng Nghymru, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn parhau i ysgogi'r nifer sy'n manteisio ar atebion ar sail natur drwy wella seilwaith gwyrdd gwledig a threfol drwy Bolisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, ac Asesiadau Seilwaith Gwyrdd arfaethedig.

Dylid nodi, er bod atebion ar sail natur yn addawol iawn o ran mynd i'r afael â'r heriau natur a hinsawdd ar yr un pryd, mae'n rhaid osgoi canlyniadau gwrthnysig sy'n niweidio natur a llesiant pobl o'u defnyddio. Rhaid iddynt hefyd gael eu dylunio gan ystyried y newid yn yr hinsawdd a ragwelir er mwyn iddynt fod yn hyfyw yn y tymor hir (Brotherton P. ac eraill, 2021).

Mae cyllid gwyrdd yn cael ei gynnig yn gynyddol i ariannu atebion ar sail natur ac adferiad byd natur. Mae Brotherton ac eraill (2021) yn amlygu potensial safonau i annog hyder mewn buddsoddiad byd natur. Yn benodol, sut mae'r Cod Carbon Coetiroedd a'r Cod Carbon Mawndiroedd wedi helpu i annog buddsoddiad mewn adfer natur i sicrhau gwrthbwysu carbon gwirfoddol. Er enghraifft, yng Nghymru defnyddiodd Prosiect Cynllun Rheolaeth Gynaliadwy o Fawndiroedd (2017-2020) y Cod Carbon Mawndiroedd i ddilysu buddion carbon pum safle, darparu canllaw syml i'r cod, ac felly helpu i adfer dros 1,200 hectar o fawndiroedd a ddifrodwyd (Brotherton ac eraill, 2021).

Economi gylchol

Mae economi gylchol yn nodwedd sylfaenol o economi adfywiol. Mae economi gylchol yn golygu cadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd â phosibl ac yn osgoi pob gwastraff (Llywodraeth Cymru, 2021g). Bydd hyn yn lleihau allyriadau carbon, llygryddion eraill a gor-fanteisio ar adnoddau naturiol yn sylweddol. Mae cyflawni economi gylchol yn hanfodol i gyflawni blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol o gynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.

Bydd hyn yn cadw mwy o ddeunyddiau'n cylchu o fewn yr economi, gan leihau'r galw am fewnbynnau adnoddau naturiol a gwastraff sy'n gysylltiedig â'u prosesu.

7. Anghenion tystiolaeth

Tystiolaeth newydd ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Bydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth allweddol newydd ledled Cymru i ddiweddarau'r asesiadau. Mae hon yn cynnwys:

- Adroddiadau Sefyllfa Byd Natur a Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2023 (Burns, F, ac eraill, 2023)
- Arolwg coetir Bunce 2021 (Smart ac eraill, 2024)
- Dosbarthiad Interim Cylch 3 Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2025)
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, adroddiad Adran 9A ar gyfer Cymru (2025)
- Asesiadau cyflwr nodweddion morol 2025
- Adroddiad Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd 2024 (ar ddod)
- Arolwg Pobl a Natur Cymru (CNC a Natural England, 2024)
- Arolwg Arferion Fferm 2024 (Llywodraeth Cymru) (ar ddod)
- Cyfrifon cyfalaf naturiol y DU: 2024 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024) a chrynodeb manwl yn 2023 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023)

Cynnydd ar anghenion tystiolaeth o adroddiadau blaenorol

Rydym wedi adolygu'r anghenion tystiolaeth a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol.

Nid yw rhai o'r anghenion a nodwyd yn gynharach yn angenrheidiol mwyach. Mae rhai bylchau wedi'u llenwi ac mewn achosion eraill mae gwaith wedi'i gynllunio neu wedi dechrau.

Mae'r anghenion tystiolaeth yr ydym yn eu nodi yn cael eu hadolygu'n allanol i'n helpu i ddod o hyd i dystiolaeth addas nad ydym yn ymwybodol ohoni ar hyn o bryd.

Diweddariad ar yr anghenion tystiolaeth a nodwyd gennym yn 2020

Roedd y rhan fwyaf o anghenion tystiolaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 o fewn y themâu cydnerthedd ecosystemau, bioamrywiaeth, defnydd tir a phridd, newid hinsawdd, lleoedd iach ac economi adfywiol. Mae tua hanner anghenion tystiolaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 wedi gweld rhywfaint o gynydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

1. Nid oeddem yn gwybod a oedd holl safleoedd gwarchoddedig (ACA, SoDdGA, AGA, Ramsar) Cymru yn wydn. Mae'r Adolygiad Monitro Sylfaenol (CNC, 2023b) ar gyfer nodweddion daearol a dŵr croyw wedi cynhyrchu data, ond canfuwyd bod tua 50% o nodweddion wedi'u dosbarthu'n 'anhysbys' oherwydd data annigonol. Yn gyffredinol, mae'n dal yn aneglur beth fu'r newid ers yr adolygiad sylfaenol. Bydd hon yn sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer adrodd ar dargedau natur sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig unrhyw rai sy'n cyfrannu at Darged 3 y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang: gwarchod a rheoli 30% o dir, dyfroedd a moroedd yn effeithiol (CBD, 2022).
2. Ariannodd Defra ddiweddariad i effaith economaidd rhywogaethau estron goresgynnol ar Brydain Fawr (Eschen ac eraill, 2023) sy'n diweddar gwybodaeth am effaith ariannol rhywogaethau estron goresgynnol ar economi Prydain Fawr a phob gweinyddiaeth ddatganoledig, gan gynnwys Cymru.
3. Roeddem am wybod beth yw'r synergeddau a'r cyfaddawdau o ran ynni â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae proses ddrafftio'r Cynllun Ynni Awdurdodau Lleol wedi creu cysylltiadau clir rhwng themâu ynni a saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, trwy gynnwys aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorwyr, a mapio'n uniongyrchol y cynigion ynni terfynol i'r saith nod.
4. Bydd adroddiad newydd gan CNC ar faint a chyflwr y graean bras o fewn ymylon arfordirol Cymru yn gwella gwybodaeth am gyfraddau erydu / cronni ac yn llywio rheolaeth.
5. Prosiect gwasgfa arfordirol: 'Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig oherwydd gwasgfa arfordirol'. Nod y prosiect yw gwella dealltwriaeth o leoliad, amseriad a graddfa debygol colli

cynefinoedd yn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru oherwydd gwasgfa arfordirol. Mae angen hyn er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer adfer a chreu o'r newydd nodweddion cynefin a gollwyd drwy wasgfa arfordirol, ac felly cynnal cydlynad y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (Oaten ac eraill, 2024a, 2024b).

6. Bydd adroddiadau Llywodraeth Cymru yn helpu i lywio cyfeiriad polisi drwy ddeall yn well yr ardal lle gellir defnyddio maethynnau yng Nghymru (Rollett a Williams, 2022a, 2022b).
7. Mae map llifogydd newydd CNC yn ymgorffori perygl llifogydd dŵr wyneb.
8. Mae modelu wedi'i wneud fel rhan o'r astudiaeth i dyniadau dŵr preifat, a nododd fannau problemus posibl o ran tynnu dŵr. Bydd yr asesiad o faint o dyniadau dŵr esempt yn cael eu cynnal, a lle, yn rhoi gwybod i gwmnïau dŵr i ba raddau y bydd angen cyflenwadau yn y dyfodol a'u maint. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o wneud tynwyr esempt yn fwy agored i niwed.
9. Mae dau adroddiad CNC yn rhoi gwell cyngor ar sut y gall rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru gyfrannu at ddiogelu a gwella carbon glas (Robbins ac eraill, 2022a, 2022b).

Rydym wedi nodi tystiolaeth gyfyngedig i wella ein hasesiad o faint a chyflwr cynefinoedd, ac effeithiau pwysau amgylcheddol amrywiol, gan gynnwys newid hinsawdd a llygredd. Mae'r anghenion tystiolaeth penodol sy'n weddill yn cynnwys:

1. Cyflwr a Thueddiadau Cynefinoedd a Rhywogaethau:

- **Glaswelltir Lled-naturiol:** Cyflwr cynefinoedd glaswelltir y tu allan i safleoedd statudol, tueddiadau mewn amrywiaeth rhywogaethau.
- **Coetiroedd:** Cyflwr coetiroedd hynafol ac amrywiaeth enetig rhywogaethau coed yng Nghymru.

2. Effaith Arferion Defnyddio a Rheoli Tir:

- **Mynydd, Rhostir a Gweundir:** Effaith torri gwair ar orgors a rhos (corbrysgwydd).
- **Glaswelltir Lled-naturiol:** Effaith plannu coed ar fawnoedd bas a phriddoedd organo-fwynol, ac effaith gwahanol gyfundrefnau rheoli ar wasanaethau ecosystemau fel storio carbon a rheoli dŵr.
- **Ansawdd y Pridd:** Sut mae newidiadau defnydd tir a rheolaeth tir wedi effeithio ar briddoedd?

3. Llygredd a Phwysau Amgylcheddol:

- **Ansawdd y Pridd:** Tueddiadau mewn halogion fel biffenylau polychlorinedig a'u heffaith bosibl ar wasanaethau ecosystemau.
- **Ansawdd Dŵr:** Effaith halogion cemegol newydd a datblygol ar ansawdd dŵr ac ecoleg, ac effaith gyfunol llygryddion cemegol ar iechyd dynol ac ecoleg.
- **Ardaloedd Morol:** Beth yw effaith ynni adnewyddadwy ar y môr ar yr ecosystem forol a sut mae lliniaru effeithiau negyddol?

4. Effeithiau Newid Hinsawdd:

- **Ardaloedd Trefol:** Effaith newid hinsawdd ar iechyd pobl, yn enwedig tywydd poeth, a digonolrwydd arwynebau athraidd a nodweddion cadw dŵr o dan senarios hinsawdd y dyfodol.
- **Ymylon Arfordirol:** Ble y gellid rheoli morfa heli i warchod a gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd a pha mor hir mae'n ei gymryd i gynefinoedd arfordirol adfer ar ôl stormydd? A yw 'adlinio' cynefinoedd yn digwydd mewn gwirionedd fel ymateb i gynnydd yn lefel y môr ac erydiad ac, os ydyw, ym mhle mae'n digwydd ac i ba raddau?
- **Dŵr Croyw:** Sut gallwn ni fesur gallu ecosystemau sy'n dibynnu ar ddŵr croyw i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd?

5. Monitro a Chasglu Data:

- **Gwydnwch Ecosystemau Cyffredinol:** Angen strategaethau monitro cynhwysfawr i asesu gwytnwch ecosystemau ar draws tirweddau.
- **Ardaloedd Trefol:** Tueddiadau mewn rhywogaethau sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau trefol, ac ansawdd mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Sylwch nad ydym wedi gallu cynnal adolygiad tystiolaeth systematig llawn i lywio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025. Mae'n bosibl felly ein bod wedi methu rhywfaint o dystiolaeth addas i ddiwallu'r anghenion tystiolaeth hyn.

Mae rhestr lawn o anghenion tystiolaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 i'w gweld ar ein [gwefan](#). Os ydych yn ymwybodol o dystiolaeth a allai ein helpu gydag asesiadau yn y dyfodol, cysylltwch â ni.

SoNaRR@naturalresourceswales.gov.uk

Nodi anghenion tystiolaeth newydd

Mae ein harbenigwyr pwnc yn nodi anghenion tystiolaeth newydd drwy gydol y broses o gasglu tystiolaeth ac ysgrifennu eu hasesiadau. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu gan arbenigwyr allanol i helpu i lenwi unrhyw fylchau a datblygu cwestiynau tystiolaeth cydlynol. Bydd y rhain wedyn yn cael eu blaenoriaethu ynghyd

â'r anghenion tystiolaeth presennol i'w cyflwyno yn yr adroddiad terfynol. Bydd hyn yn cyfleu blaenoriaethau presennol a'r dyfodol i staff, rhanddeiliaid a phartneriaid tystiolaeth.

Enghreifftiau o rai anghenion tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg:

1. Sut bydd dosbarthiad rhywogaethau yn newid yng Nghymru gyda newid hinsawdd? Newidiadau i wasgariad, dosbarthiad ac amlenni hinsawdd rhywogaethau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys hefyd y rhywogaethau hynny sy'n symud i ardaloedd nad oeddent yn byw ynddynt yn flaenorol.
2. A oes manteision lluosog i'w hennill o ymyriadau addasu a lliniaru newid hinsawdd?
3. Beth yw'r tueddiadau mewn arferion rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru a'r canlyniadau y maent yn eu darparu ar gyfer hinsawdd, natur a phobl a'u cyfraniad at leihau llygredd?
4. Beth yw'r cyfraddau atafaelu carbon uwchben y ddaear ac oddi tani o wahanol systemau amaeth-goedwigaeth a'r manteision a'r cyfaddawdau i natur a phobl sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru?

Llyfryddiaeth

- Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2022. Parodwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth. Archwilio Cymru.
- BEIS, 2024. Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 1990-2022 | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol.
- Brotherton P., T., McGuckin, S., Ormerod, S., Osowska, F., Sizeland, P., Stuart, E., Walmsley, C., Waters, R. a, Wilkinson, S., Anderson, H., Galbraith, C., Isaac, D., Lawton, J., Lewis, M., Mainwaring-Evans, 2021. Nature Positive 2030 – Evidence Report. Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Peterborough.
- Burnett, N., Hinson, S., Stewart, I., 2024. The UK's plans and progress to reach net zero by 2050 (Research Briefing No. 9888). Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.
- Burns, F, Boswell, J, Boyd, RJ, Bradfer-Lawrence, T, de Ornellas, P, de Palma, A, de Zylva, P, Dennis, EB, Foster, S, Gilbert, G, Halliwell, L, Hawkins, K, Haysom, KA, Holland, MM, Hughes, J, Jackson, AC, Mancini, F, Mathews, F, McQuatters-Gollop, A, Noble, DG, O'Brien, D, Pescott, OL, Purvis, A, Simkin, J, Smith, A, Stanbury, AJ, Villemot, J, Walker, KJ, Walton, P, Webb, TJ, Williams, J, Wilson, R, Gregory, RD, Mordue, S, al Fulaij, N, Boersch-Supan, PH, 2023. Sefyllfa Byd Natur 2023. Partneriaeth Sefyllfa Byd Natur.
- CBD, 2022. Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang: Targedau 2030 (gyda Nodiadau Canllaw) [Dogfen WWW]. URL <https://www.cbd.int/gbf/targets> (cyrchwyd 11.20.24).
- Chen, I.-C., Hill, J.K., Ohlemüller, R., Roy, D.B., Thomas, C.D., 2011. Rapid Range Shifts of Species Associated with High Levels of Climate Warming. *Science* 333, 1024–1026. <https://doi.org/10.1126/science.1206432>
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023a. Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru. Pwyllgor Newid Hinsawdd.
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2023b. Addasu i newid hinsawdd: Cynnydd yng Nghymru.
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020. Adroddiad Cyngor: Y Llwybr i Gymru Sero Net. Pwyllgor Newid Hinsawdd.
- Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, 1992.
- Ein Bro – Our Vale, 2023. Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2023-2028.
- Ein Bro – Our Vale, 2022. A View of the Vale of Glamorgan – An Assessment of Current and Future Well-being [Dogfen WWW]. URL <https://sway.cloud.microsoft/E2aJI1MxUhMAYPYU?ref=Link&loc=play>
- Asiantaeth yr Amgylchedd, 2022. Severn River Basin Management Plan summary and cross border catchments (England and Wales) [Dogfen WWW]. Gov.uk. URL <https://www.gov.uk/government/publications/severn-river-basin-management-plan-summary-and-cross-border-catchments-england-and-wales/severn-river-basin-management-plan-summary-and-cross-border-catchments-england-and-wales> (cyrchwyd 11.19.24).
- Cynghrair G7 ar Economiau Natur-bositif, 2023. Cylch Gorchwyl: G7 Alliance on Nature Positive Economies [Dogfen WWW]. URL <https://g7anpe.com/> (cyrchwyd 11.18.24).
- Trysorlys EF, 2021. Final Report – The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review. Trysorlys EF.

- IPBES, 2019a. Global assessment report on biodiversity and ecosystem services of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services. Zenodo. <https://doi.org/10.5281/ZENODO.6417333>
- IPBES, 2019b. Global assessment report on biodiversity and ecosystem services of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services. Zenodo. <https://doi.org/10.5281/ZENODO.6417333>
- IPCC, 2023. Summary for Policymakers. Yn: Climate Change 2023: Synthesis Report. Contribution of Working Groups I, II and III to the Sixth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change. Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd, Genefa, y Swistir.
- Y PANEL RHYNGLYWODRAETHOL AR NEWID HINSAWDD, 2018. Global Warming of 1.5°C. An IPCC Special Report on the impacts of global warming of 1.5°C above pre-industrial levels and related global greenhouse gas emission pathways, in the context of strengthening the global response to the threat of climate change, sustainable development, and efforts to eradicate poverty.
- CYD-BWYLLGOR CADWRAETH NATUR, 2023. UKBI – B5a. Air pollution. Area affected by acidity and area affected by nitrogen [Dogfen WWW]. URL <https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-b5a-air-pollution/#background-table-b5a-ii-percentage-area-of-sensitive-uk-habitats-exceeding-critical-loads-for-acidification-and-eutrophication-by-country-for-2020>
- Addewid Natur yr Arweinwyr, 2020. Leaders' pledge for nature: United to reverse biodiversity loss by 2030 for sustainable development [Dogfen WWW]. Addewid yr Arweinwyr dros Natur. URL https://www.leaderspledgefornature.org/wp-content/uploads/2021/06/Leaders_Pledge_for_Nature_27.09.20-ENGLISH.pdf (cyrchwyd 10.30.23).
- Netherwood, A., 2021. Summary for Wales (CCRA3-IA). UK Climate Risk. URL <https://www.ukclimaterisk.org/publications/summary-for-wales-ccra3-ia/> (cyrchwyd 3.14.24).
- CNC, 2023a. Natur a Ni – menter genedlaethol ar ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru [Dogfen WWW]. URL <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-projects/our-nature-projects/nature-and-us-natur-a-ni-1/?lang=cy>
- CNC, 2023b. Asesiad gwaelodlin safleoedd gwarchoddedig 2020 [Dogfen WWW]. URL <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy>
- CNC, 2022a. Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy 2021–2027: Crynodeb.
- CNC, 2022b. Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru 2021–2027: Crynodeb.
- CNC, 2021a. Dosbarthiad llinell sylfaen Cylch 3 2021 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – Cwestiynau Cyffredin.
- CNC, 2021b. Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020): Defnydd tir a phridd, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.
- CNC, 2021c. Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020): Asesiad o gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Gwastraff.
- CNC, 2020. Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020) [Dogfen WWW]. URL

- <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy>
- CNC, Natural England, 2024. Arolwg Pobl a Natur Cymru, 2021-2022: Mynediad Agored. <https://doi.org/10.5255/UKDA-SN-9300-1>
- Oaten, J., Finch, D., Frost, N., 2024a. Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig oherwydd gwasgfa arfordirol: Cyfrol 1 – Methodoleg (Rhif 789). Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
- Oaten, J., Finch, D., Frost, N., 2024b. Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig oherwydd gwasgfa arfordirol: Cyfrol 2 – Canlyniadau a Thrafodaeth (Rhif 789). Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
- Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Cyfrifon cyfalaf naturiol y DU: 2024 [Dogfen WWW]. Swyddfa Ystadegau Gwladol. URL <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/uknaturalcapitalaccounts/2024>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023. Cyfrifon Cyfalaf Naturiol y DU: 2023 – crynodeb manwl [Dogfen WWW]. Swyddfa Ystadegau Gwladol, Economi, Cyfrifon amgylcheddol. URL <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/datasets/uknaturalcapitalaccounts2023detailedsummary> (cyrchwyd 1.4.24).
- Pascual, U., Balvanera, P., Anderson, C.B., Chaplin-Kramer, R., Christie, M., González-Jiménez, D., Martin, A., Raymond, C.M., Termansen, M., Vatn, A., Athayde, S., Baptiste, B., Barton, D.N., Jacobs, S., Kelemen, E., Kumar, R., Lazos, E., Mwampamba, T.H., Nakangu, B., O'Farrell, P., Subramanian, S.M., van Noordwijk, M., Ahn, S., Amaruzaman, S., Amin, A.M., Arias-Arévalo, P., Arroyo-Robles, G., Cantú-Fernández, M., Castro, A.J., Contreras, V., De Vos, A., Dendoncker, N., Engel, S., Eser, U., Faith, D.P., Filyushkina, A., Ghazi, H., Gómez-Baggethun, E., Gould, R.K., Guibrunet, L., Gundimeda, H., Hahn, T., Harmáčková, Z.V., Hernández-Blanco, M., Horcea-Milcu, A.-I., Huambachano, M., Wicher, N.L.H., Aydın, C.İ., Islar, M., Koessler, A.-K., Kenter, J.O., Kosmus, M., Lee, H., Leimona, B., Lele, S., Lenzi, D., Lliso, B., Mannetti, L.M., Merçon, J., Monroy-Sais, A.S., Mukherjee, N., Muraca, B., Muradian, R., Murali, R., Nelson, S.H., Nemogá-Soto, G.R., Ngouhou-Poufoun, J., Niamir, A., Nuesiri, E., Nyumba, T.O., Özkaynak, B., Palomo, I., Pandit, R., Pawłowska-Mainville, A., Porter-Bolland, L., Quaas, M., Rode, J., Rozzi, R., Sachdeva, S., Samakov, A., Schaafsma, M., Sitas, N., Ungar, P., Yiu, E., Yoshida, Y., Zent, E., 2023. Diverse values of nature for sustainability. *Nature* 620, 813–823. <https://doi.org/10.1038/s41586-023-06406-9>
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, dim dyddiad. Rhagnodi Cymdeithasol [Dogfen WWW]. URL <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/yr-is-adran-gofal-sylfaenol/rhagnodi-cymdeithasol/>
- Robbins, K., Armstrong, S., Frost, N., 2022a. Deall sut y gall rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru gyfrannu at ddiogelu a gwella carbon glas (Rhif Adroddiad: 630). Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
- Robbins, K., Armstrong, S., Williamson, D., Frost, N., Hull, S., 2022b. Potensial Carbon Glas y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn Amgylchedd Morol Cymru (Rhif 631), Adroddiad Tystiolaeth CNC. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
- Rollett, A., Williams, J., 2022a. Asesiad o'r banc tir yng Nghymru ar hyn o bryd (Rhif SPEP202-21/10), Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd 2020-21. Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Rollett, A., Williams, J., 2022b. Cyfyngiadau i adfer ac ailgylchu maethynnau i dir amaethyddol yng Nghymru (Rhif SPEP2020-21/10). Llywodraeth Cymru.
- Smart, S.M., Walker, C., Sier, A.R.J., Seaton, F., Kirby, K.J., Wood, C.M., 2024. Fifty years of change across British broadleaved woodlands: A resurvey and analysis of the “Bunce” sites 1971-’01-’21. Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (110 tudalen).
- Smith, F., 2021. Defnydd Llywodraeth Cymru o offer polisi ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.
- Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur, 2024. TNFD Adopters [Dogfen WWW]. Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur. URL [https://tnfd.global/engage/tnfd-adopters-list/?_sfm_adoption_year=2025&_sfm_hq-country=United%20Kingdom%20of%20Great%20Britain%20and%20Northern%20Ireland%20\(the](https://tnfd.global/engage/tnfd-adopters-list/?_sfm_adoption_year=2025&_sfm_hq-country=United%20Kingdom%20of%20Great%20Britain%20and%20Northern%20Ireland%20(the)
- Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011. Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU: Synthesis o'r Canfyddiadau Allweddol.
- UNEA, 2022. Penderfyniad a fabwysiadwyd gan Gynulliad Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig ar 2 Mawrth 2022 5/5. Atebion ar sail natur ar gyfer cefnogi datblygu cynaliadwy.
- UNEP, 2021. Ar gyfer pobl a'r blaned: strategaeth UNEP ar gyfer 2022-2025.
- UNEP, 2019. Rhagolygon Amgylchedd Byd-eang 6. RHAGLEN AMGYLCHEDDOL Y CENHEDLOEDD UNEDIG.
- UNFCCC. Ysgrifenyddiaeth, 2024. Nationally determined contributions under the Paris Agreement. Adroddiad synthesis gan yr ysgrifenyddiaeth (adroddiadau synthesis).
- Y Cenhedloedd Unedig ac eraill, 2021. System of Environmental-Economic Accounting – Ecosystem Accounting (SEEA EA). Cyhoeddiad clawr gwyn, testun wedi'i olygu ymlaen llaw yn amodol ar olygu swyddogol. Ar gael yma: <https://seea.un.org/ecosystem-accounting>.
- Llywodraeth Cymru, 2024a. Llesiant Cymru: 2024.
- Llywodraeth Cymru, 2024b. Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2024c. Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Data Allyriadau ar gyfer 2022 [Dogfen WWW]. URL https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-data-allyriadau-ar-gyfer-2022?_gl=1*1tub2np*_ga*MTIzNjMxNzkwMy4xNzMyMDIxMzU2*_ga_L1471V4N02*MTczMzkzMTU1Mi4zLjAuMTczMzkzMTU1Mi4wLjAuMA..
- Llywodraeth Cymru, 2024d. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2024.
- Llywodraeth Cymru, 2024e. Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Cronfa Ddata Cyfraith Statud.
- Llywodraeth Cymru, 2023a. Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir Cynaliadwy.
- Llywodraeth Cymru, 2023b. Dogfen Ymgynghori. Adolygiad o Dargedau Ynni Adnewyddadwy Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2023c. Cynhyrchu ynni yng Nghymru: 2022.
- Llywodraeth Cymru, 2023d. Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2022a. Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol [Dogfen WWW]. URL – <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol>

Llywodraeth Cymru, 2022b. Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth: argymhellion.

Llywodraeth Cymru, 2022c. Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025: Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, 2021a. Cymru'r Dyfodol: Y cynllun cenedlaethol 2040.

Llywodraeth Cymru, 2021b. Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt [Dogfen WWW]. Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt. URL <https://www.llyw.cymru/cymru-wedi-ymrwymo-i-sero-net-erbyn-2050-ond-yr-uchelgais-yw-taror-nod-yn-gynt?> (cyrchwyd 11.18.24).

Llywodraeth Cymru, 2021c. Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon [Dogfen WWW]. URL <https://www.llyw.cymru/targedau-newid-hinsawdd-chyllidebau-carbon>

Llywodraeth Cymru, 2021d. Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021 i 2025). Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2021e. Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2021f. NEWID HINSAWDD, CYMRU Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021.

Llywodraeth Cymru, 2021g. Mwy Nag Ailgylchu: Strategaeth i greu economi gylchol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2019. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2017. Polisi Adnoddau Naturiol.

Fforwm Economaidd y Byd, 2024. Adroddiad Risgiau Byd-eang 2024.

DIWEDD